



**Oes gennych chi neu'ch partner ofalwr sy'n aros dros nos yn eich cartref?**

**Ydych chi'n rhentu eich cartref?**

**Ydi'r gofal dros nos yn cael ei ddarparu gan ofalwr nad yw'n byw yn eich cartref?**

**Oes gennych chi ystafell y mae eich gofalwr yn ei defnyddio i gysgu ynddi dros nos?**

Os ydych wedi ateb 'ydw', 'ydi' neu 'oes', i'r cwestiynau hyn, yna o **Ebrill 2011** gall yr help fyddwch yn ei gael gyda'ch rhent ystyried hynny.

O Ebrill 2011, gellir ystyried ystafell wely y mae gofalwr (neu dîm o ofalwyr) nad yw'n byw yn eich cartref yn ei defnyddio, wrth benderfynu faint o Fudd-dal Tai i'w dalu i chi.

Mewn rhai achosion, gall hyn olygu cynyddu eich Budd-dal Tai. Ond caiff newidiadau eraill i reolau Budd-dal Tai sy'n cael eu cyflwyno'r un pryd hefyd effeithio ar unrhyw arian ychwanegol caiff ei dalu. Mae hyn yn golygu y bydd angen ystyried eich **holl** amgylchiadau er mwyn ystyried yr **holl** reolau newydd i benderfynu a allwch gael rhagor o arian ai peidio.

Hyd yn oed os na fydd eich Budd-dal Tai yn cynyddu o ganlyniad i hyn, mae'n werth dweud wrth eich awdurdod lleol os oes gennych chi neu'ch partner y math hwn o drefniant. Felly, os ydych yn credu fod hawl gennych efallai i gael help gyda chost ystafell wely ychwanegol a ddefnyddir gan ofalwr, ysgrifennwch at yr Adran Budd-dal Tai/Treth y Cyngor, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU.

**Os oes angen cyngor arnoch, cysylltwch â'r Adran Budd-dal Tai ar 01492 576491**

**This document is also available in English.**